...............................................................................

## Beth am gael pryd o fwyd o dan y dŵr?

Dychmygwch y profiad - mwynhau pryd blasus o fwyd ... mewn  tŷ bwyta hyfryd ... gyda ffrindiau da ... gan edrych drwy'r ffenestri mawr ... a gweld ... pysgod ... pysgod ... a mwy o bysgod o bob lliw a llun. Nid pysgod yn unig, ychwaith, ond dychmygwch y profiad o fedru gweld cwrel hardd o'ch cwmpas!

Dyna'r profiad byddwch chi'n ei gael os ewch chi i Dŷ Bwyta Ithaa. Mae'r tŷ bwyta wedi ei leoli tua 16 troedfedd, neu 5 metr, o dan y dŵr yn y Maldives, sef grŵp o tua 1,200 o ynysoedd, tua 300 milltir o India.

Ystyr 'Ithaa' yw 'perl' ac mae'r tŷ bwyta yma yn wir yn berl yng nghanol y môr glas, hyfryd, glân. Er mwyn ei gyrraedd, rhaid cerdded i adeilad bach to gwellt sydd ar ddiwedd jeti pren, a cherdded oddi yno i lawr grisiau troellog. Yna, byddwch chi'n mynd i mewn i'r tŷ bwyta anhygoel, sy'n mesur 5 metr wrth 9 metr. Mae'r to wedi ei wneud o arcylic clir fel bod modd i chi edrych drwyddo a mwynhau'r golygfeydd bendigedig.

Mae'r bwyd sy'n cael ei weini yma'n fwyd Ewropeaidd ac Asiaidd gan fwyaf ac mae o safon uchel. Mae lle i 14 o bobl fwyta, ond ni chaniateir plant dan 12 oed. Mae modd cynnal partïon a phriodasau yma hefyd.

Beth i'w wisgo - dyna'r cwestiwn mawr ynte! Byddech chi'n disgwyl gorfod gwisgo dillad nofio neu ddillad deifio a fflipers i gyrraedd tŷ bwyta o dan y môr, ond i'r gwrthwyneb - mae'r perchnogion yn disgwyl i'r gwesteion wisgo'n smart.

Mae'r tŷ bwyta'n anhygoel, felly os ydych chi'n un sy'n mwynhau bwyta allan ac sy'n hoffi pethau ychydig yn wahanol, dyma'r lle i chi! Ond cofiwch, mae'r tŷ bwyta yma -  y tŷ bwyta cyntaf o'i fath - yn boblogaidd iawn, felly mae'n well i chi gysylltu 14 diwrnod o flaen llaw os ydych chi eisiau bwcio bwrdd!

